| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **17 Gorffennaf 2025** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Y Cyng. Elen Heaton / Y Cyng. Diane King / Nicola Stubbins** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Ann Lloyd / Rhiain Morrlle** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Ann Lloyd / Rhiain Morrlle** |
| **Teitl** | **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/2025** |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'n rhaid i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru lunio adroddiad blynyddol sy'n rhoi trosolwg o berfformiad gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

1.2. Mae'r adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2024/2025 ynghlwm fel Atodiad 1. Bwriad yr adroddiad hwn yn darparu darlun cywir a defnyddiol i ystod o fudd-ddeiliaid a chynulleidfaoedd o wasanaethau yn Sir Ddinbych a dangos pa wahaniaeth mae gweithredoedd yr awdurdod lleol yn ei wneud i fywydau pobl.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I alluogi'r aelodau i graffu ar yr adroddiad blynyddol drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Ddinbych (CSDd).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried os yw'r adroddiad yn darparu darlun clir o berfformiad yn 2024 / 2025 ac yn dangos pa wahaniaeth mae gwasanaethau cymdeithasol Sir Ddinbych yn ei wneud i fywydau pobl.

3.2. Bod yr aelodau'n ystyried a yw'r adroddiad yn codi unrhyw faterion / pryderon yn ymwneud â pherfformiad sydd angen craffu arnynt ymhellach.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yn ystod 2024 / 2025 mae ein Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'n Gwasanaethau Plant wedi canolbwyntio ar fodloni ein rhwymedigaethau statudol a'r galw a chymhlethdod yr angen sy'n cynyddu'n gyffredinol. Trwy gydol y flwyddyn bu canolbwynt ar drawsnewid gwasanaethau i sicrhau bod gennym wasanaethau cynaliadwy a fydd yn bodloni anghenion rhai o'n dinasyddion mwyaf diamddiffyn yn y dyfodol.

4.2. Mae ein perfformiad yn ystod 2024 / 2025 yn gweld tueddiadau gwahanol ar draws Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Yn y gwasanaethau oedolion rydym wedi gweld y galw wrth y drws ffrynt yn gostwng, ond cymhlethdod anghenion yn cynyddu, gyda nifer y dinasyddion sydd â chynllun gofal a chymorth i fodloni eu hanghenion yn cynyddu. Yn y gwasanaethau plant, fodd bynnag, mae'r galw wrth y drws ffrynt wedi cynyddu 14% ers 2023/2024.

4.3. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld gwelliannau wrth allu recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol newydd, yn arbennig ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion, er bod heriau sylweddol yn ein hwynebu o hyd o ran y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion a'r Gwasanaethau Plant. Mae rhywfaint o'r llwyddiant hwn wedi dod trwy ein buddsoddiad 'datblygu ein staff ein hunain', ond yn golygu ein bod yn colli gweithwyr proffesiynol profiadol ac mae hyn yn effeithio ar fwy o uwch weithwyr cymdeithasol a Rheolwyr Tîm sy'n gorfod cymryd mwy o achosion cymhleth.

4.4. Yr hyn sy'n glir yn yr adroddiad yw bod llawer o waith yn digwydd yn y gwasanaethau oedolion a phlant i atal dibyniaeth ar ofal a chymorth traddodiadol, h.y. gofal preswyl a gofal yn y cartref. Mae nifer o'r dulliau amgen

ac ataliol yn cyflawni gwell canlyniadau ar gyfer unigolion, gyda'r dinesydd yn cael dewis a rheolaeth dros eu gofal a'u cymorth.

4.5. Yn y Gwasanaethau Plant, o gyfanswm y plant sydd ag anghenion cymwys rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y niferoedd sy'n gallu bodloni eu hanghenion cymwys trwy unrhyw ddull arall. Mae hyn wedi gostwng i 66% o 93% yn 2023 / 2024. Ar yr un pryd mae nifer y plant y gellir ond bodloni eu hanghenion gan gynllun gofal a chymorth wedi cynyddu 1% yn 2023 / 2024. Mae hyn yn dangos cymhlethdod cynyddol yr angen a welwn yn y gwasanaethau cymdeithasol.

4.6. Fodd bynnag, er hyn rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol o 43% yn nifer y plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod 2024 / 2025.

4.7. Yn 2024 / 2025 gwelwyd y Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn canolbwyntio ar drawsnewid a bu i Sir Ddinbych fabwysiadu Polisi Cefnogi Maethu i unrhyw weithiwr y Cyngor sydd yn, neu'n dod yn ofalwyr maeth. Mae'r angen i gynyddu nifer y Gofalwyr Maeth yn Sir Ddinbych yn ein galluogi i ddarparu gwell canlyniadau i'n pobl ifanc ond mae hefyd yn fwy cost-effeithiol.

4.8. Mae gwaith yn parhau i ddileu elw o ofal yn y Gwasanaethau Plant trwy edrych ar sut y gallwn ddatblygu ein cartrefi plant preswyl bychain ein hunain.

4.9. Yn y Gwasanaethau Oedolion rydym wedi parhau gyda'n menter Symud gydag Urddas ac o fis Gorffennaf 2024 ni chynigiwyd gofal a ddarperir gan fwy nag un unigolyn fel dewis safonol. Cawsom adborth cadarnhaol iawn gan ddinasyddion sydd nawr ond yn cael gofal gan un unigolyn gyda chymorth yr offer priodol, gan eu bod yn teimlo'n fwy o ran o'u gofal a'u cymorth.

4.10. Ochr yn ochr â hyn mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn gweithio ar siapio'r farchnad gofal yn y cartref a gwella ac uwchraddio eu cartrefi gofal preswyl i fodloni anghenion a'r galw o ran cymhlethdod yr angen ar gyfer y dyfodol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Yn ystod blwyddyn ariannol 2024 - 2025 cyfrannodd y Gwasanaethau Oedolion a Phlant tuag at themâu canlynol y Cynllun Corfforaethol

- Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sy’n bodloni anghenion pobl
- Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus
- Sir Ddinbych sy’n dysgu a thyfu
- Sir Ddinbych mwy teg, diogel a chyfartal

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid yw datblygu a chyhoeddi’r adroddiadau blynyddol yn costio unrhyw beth ac eithrio amser swyddog, ac nid yw’n effeithio ar wasanaethau eraill. Bydd y cynlluniau ar gyfer y dyfodol a’r camau gweithredu a nodir yn yr adroddiad ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd a Gwasanaethau Plant ac Addysg yn cael eu cyflawni drwy gyllidebau craidd, neu drwy gyllid partneriaeth fel y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, ond mae pwysau ariannol sylweddol yn parhau o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Plant.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad blynyddol gan ei fod yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad ac nid yw cyhoeddi’r adroddiad yn cael unrhyw effaith bosibl ar genedlaethau’r dyfodol. Fodd bynnag, cynhelir Asesiadau o Effaith ar Les mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau’r dyfodol neu ddatblygiad gwasanaethau y soniwyd amdanynt yn yr adroddiadau blynyddol hyn, pan fo angen.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ynglŷn â’n gwasanaethau yn ffurfio rhan o’n proses sicrwydd ansawdd presennol ac o’r herwydd mae wedi cyfrannu’n sylweddol at ddatblygiad yr adroddiad blynyddol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae’n rhaid i oblygiadau cost unrhyw faterion sy’n dod i’r amlwg yn yr adroddiad blynyddol gael eu hystyried yng nghyd-destun sefyllfa gyllidebol

ehangach a Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Amlinellir yr heriau a’r pwysau ariannol sydd ar y gwasanaethau a’r Cyngor yn glir yn Adran 2 (c) yr Adroddiad Blynyddol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae cofrestr risg fanwl ar gyfer y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a’r Gwasanaethau Digartrefedd a’r Gwasanaethau Addysg a Phlant. Gan fod yr adroddiad hwn am y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych, mae unrhyw risgiau sy’n gysylltiedig â’r materion yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad hwn (ac unrhyw gamau i’w lliniaru a’u rheoli) yn cael eu nodi yn y cofrestrau risg gwasanaeth priodol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Canllawiau Statudol (gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol) yn cael eu cyhoeddi o fewn y Cod Ymarfer ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Ran 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

11.2. Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau Craffu mewn perthynas â monitro perfformiad a chyflawni amcanion polisi.